@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / *Acting Headteacher:* Mr Gareth L James

## Celf a Chrefft

Os ydych yn dymuno cystadlu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd, bydd Mrs Buddug Davies yn derbyn y cynnyrch i'w dosbarth ar ddydd Llun yr 22ain o Ebrill. Bydd y gystadleuaeth ei hun ar ddydd Mawrth y 23ain.

## Taith Blwyddyn 4 i Barc Natur Penglais

Hoffwn atgoffa disgyblion Blwyddyn 4 o'r daith i Barc Natur Penglais ar brynhawn dydd Mawrth, Ebrill 23ain. Gweler y llythyr sydd wedi ei ddosbarthu gan yr athrawon dosbarth.

## Taith Blwyddyn 3 i Fferm Peithyll

Bydd Blwyddyn 3 yn ymweld â Fferm Peithyll yng Nghapel Dewi ar ddydd Mercher, Ebrill 24ain. Cofiwch ddillad ac esgidiau addas (llythyr eisoes wedi ei ddosbarthu gan athrawon Blwyddyn 3). Cost y bws fydd £3.00 y plentyn - mi fydd hyn yn ymddangos yn eich cyfrif ParentPay.

## Twrnamaint Pêl-droed yr Urdd

Bydd twrnamaint Sir Ceredigion yn cael ei chynnal ar Gaeau Blaendolau ar ddydd Iau y 25ain o Ebrill.
Rydym wedi darparu cit yr ysgol i bawb o fl.5a6 heddiw sydd wedi dangos diddordeb i gymryd rhan mewn pêl-droed ac sydd wedi bod yn ymarfer.
Bydd chwe tîm yn chwarae i gyd – 5 ohonynt draw ar Gaeau Blaendolau ac 1 tîm ar Gae yr Ysgol Gymraeg yn erbyn Ysgol Plascrug.

Dymuniadau gorau i bawb sy'n cymryd rhan.




## Tocynnau Eisteddfod yr Urdd

Rhannwyd amserlen Eisteddfod yr Urdd gyda chi yn y llythyr wythnos diwethaf.
Bydd yr ysgol yn prynu tocynnau mynediad i'r plant sy'n cystadlu.
Os ydych chi'n prynu tocynnau ar eich cyfer chi fel teulu, ac yn gweld ei fod yn rhatach i chi brynu tocyn teulu (sy'n cynnwys y plentyn sy'n cystadlu) rhowch wybod i mi os gwelwch yn dda. Mae'n bosib y medrwn arbed arian i'r ysgol drwy'r angen i brynu llai o docynnau.

## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr **hanner tymor hwn**. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth Dros Dro**
**19/04/2024**
www.ysgolgymraeg.cymru

***Art and Craft***

*If you wish to compete in the Urdd Art and Craft competitions, Mrs Buddug Davies will receive the items in her class on Monday the 22nd of April. The competition itself will be on Tuesday the 23rd.*

***Year 4 trip to Penglais Nature Park***

*I would like to remind Year 4 pupils of the trip to Penglais Nature Park on the afternoon of Tuesday, April 23rd. See the letter that has been distributed by the class teachers for more information.*

***Year 3 trip to Peithyll Farm***

Year 3 will be visiting Peithyll Farm in Capel Dewi on Wednesday, April 24th. Please remember suitable clothes and footwear (letter already distributed by Year 3 teachers). The cost of the bus will be £3.00 per child - this will appear in your ParentPay account.

***The Urdd Football Tournament***

*The Ceredigion County tournament will be held on Blaendolau Fields on Thursday the 25th of April.*

*We have provided a school kit to everyone from years 5 and 6 today who has shown an interest to take part and who have been training.*

*There will be six teams playing in total - 5 of them over at Blaendolau Fields and 1 team on the Ysgol Gymraeg Field against Ysgol Plascrug.*

*Best wishes to all who take part.*




***Urdd Eisteddfod tickets***

*The schedule of the Urdd Eisteddfod activities was shared with you in last week's letter.*

*The school will buy entry tickets for the children who are competing.*

*If you are buying tickets for you as a family, and find that it is cheaper for you to buy a family ticket (which includes the child who is competing) please let me know. It is possible that we can save money for the school through the need to buy fewer tickets.*

***Half Term Calendar***

*Here is the link to the [Half Term Calendar]() for* ***this half term****. A link to the calendar is included in every letter, and it lives permanently on the school's website.*

***If you have any concerns about your child's wellbeing or educational development, then please contact me immediately.***

***Yours sincerely,***
***Gareth L James***
***Acting Headteacher***
***19/04/2024***

www.ysgolgymraeg.cymru